**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 26 Medi 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Is-gadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Fogarty | Y V Jardine | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | J E Pritchard |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Moore | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| L S Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| H Gwiliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Cymorth) |
| Julia Manser | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Evans

---

**14 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd H Lawson gysylltiad personol â Chofnod 17 "Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe."

**15 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**16 Rhaglen y Gweithlu - Gwasanaethau Cymdeithasol: Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol.**

Ar ran Arweinydd y Gweithlu, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad ar Raglen y Gweithlu, Gwasanaethau Cymdeithasol; Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol.

Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ar draws Cyfarwyddiaethau - Pethau sy'n ymwneud yn benodol â Llywodraeth Cymru;
- Mentrau'r Gweithlu ar draws Cyfarwyddiaethau;
- Pethau y mae modd eu cyflawni yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Pethau y mae modd eu cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi

Roedd trafodaethau'n cynnwys y canlynol:

- Prentisiaethau;
- Cyfleoedd llwybr carlam/cymhellion recriwtio
- Mentora a chefnogaeth i bob aelod o staff;
- Recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol o dramor;

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am y cyflwyniad a llongyfarchodd holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am y gwaith a wnaed yn ystod cyfnod heriol iawn.

**17 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi, gyda chefnogaeth y Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, adroddiad “er gwybodaeth” a oedd yn amlinellu'r cynnydd o ran datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 28 Tachwedd 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am y diweddariad.

**18 Polisi Adennill Dyled Personol Corfforaethol Drafft.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi, gyda chefnogaeth y Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, adroddiad i ddatblygu a

mabwysiadu polisi sy'n gwreiddio ymagwedd gorfforaethol at reoli adennill dyledion personol.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi yn argymell bod y polisi drafft yn cael ei symud ymlaen i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y broses AEI ddilynol, Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r cyngor er mwyn cymeradwyo'r polisi terfynol.

**19 Cynllun Gwaith**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

1) Ychwanegu "Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe" at yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 28 Tachwedd 2022;
2) Cynnal trafodaeth bellach mewn perthynas â "Rhaglen y Gweithlu - Gwasanaethau Cymdeithasol; Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol”.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.15 pm

**Cadeirydd**